

## Mae pawb yn colli pan gamwch ar y trac.

**Bob blwyddyn mae cannoedd o bobl yn herio'r rheilffordd yn anfwriadol ac yn colli.**

Byddwch yn ymwybodol o'r perygl na allwch ei weld. Cadwch oddi ar y trac a thalwch sylw i unrhyw arwyddion diogelwch.

Ydi'n werth peryglu'ch bywyd?



Mae pawb yn colli pan gamwch ar y trac

**You vs. Train**

**Mae'r rheilffordd yn llawn peryglon cudd. Os na chewch eich taro gan drên annisgwyl, cewch eich taro gan y cerrynt angheuol yn y cledrau a'r llinellau pŵer.**

Yr unig ffordd o osgoi perygl yw cadw oddi ar y trac.



### **Mae angen ichi ddeall y peryglon:**

- Mae'r rheilffordd yn drydanol
- Mae'r trydan hwn yn llifo bob amser a gall eich lladd
- Mae trenau'n rhedeg 24 awr y dydd
- Ni allwch redeg yn gynt na thrên.

### **Dyma sut i aros yn ddiogel:**

- Peidiwch â cherdded na chwarae ar y traciau nac yn eu hymyl
- Peidiwch â mynd y ffordd fer dros y traciau
- Peidiwch â hongian dim byd o bontydd dros y rheilffordd
- Talwch sylw i arwyddion diogelwch.